


## GAIR GAN Y GWEINIDOG



## LLYGAID IESU

### ABERFAN

Eleni ar Hydref yr 21ain, atgoffwyd ni ar newyddion Radio Cymru bod 58 mlynedd ers y ddamwain erchyll yn Aberfan a laddodd 116 o blant a 28 o oedolion gan adael ardal gyfan a gwlad gyfan wedi eu hysgwyd i'w seiliau. Lle roeddech chi 58 mlynedd yn ôl? Roeddwn i'n fychan iawn – 2 oed ar y pryd ac yn byw yn Llundain, ond dwi wedi cyfarfod pobl oedd yn cofio clywed am y ddamwain a gadael eu gwaith i fynd yno i helpu gyda'r chwilio a'r clirio. Mae colled cymaint o blant hyd yn oed 58 mlynedd wedyn yn dal i greithio'r cof. Eneidiau i'w gwarchod a'u gweld yn tyfu ydy plant – boed ein plant ein hunain neu blant teulu, ffrindiau a chydnabod. Mae claddu plant yn mynd yn groes i bob trefn a rheswm a synnwyr i ni a felly y dylai hi fod.

### CROESAWU PLANT

Ynghanol diwrnod prysur o deithio a chyfarfod pobl, ceisiodd grwp o famau

ddod â'u plant at Iesu iddo eu bendithio. Eu troi i ffwrdd oedd ymateb naturiol y disgyblion, wedi'r cyfan, doedd plant dan ddeuddeg ddim yn cyfrif fel pobl go iawn. Yn groes i arfer ei gyfnod, mynnodd Iesu fod y plant yn cael dod ato *"Gadewch iddyn nhw ddod ata i a pheidiwch â'u rhwystro nhw – mae nhw'n rhan werthfawr o fywyd Teyrnas ein Tad Nefol."* Mae hi'n hawdd dychmygu'r olygfa yma yntydi a synhwyro'r wên a'r chwerthin yn llygaid Iesu yng nghwmni'r plant.

## DYSGU GWERSI

Ers dyddiau Aberfan, da ni'n gobeithio bod gwersi wedi eu dysgu a'r gofal am ddiogelwch plant wedi cynyddu fel na fydd damwain debyg yn digwydd eto. Mi ddylai ysgol fod yn fan diogel ond, gwaetha'r modd, y mae'r hawl i gario arfau yn ymddangos yn bwysicach yn yr Unol Daleithiau na diogelu plant a bellach da ni ddim yn synnu pan glywn ni am saethu mewn ysgolion. "Mae'n rhaid mai rhyw wallgofddyn sy'n gyfrifol," medden ni, "neu fyfyriwr gyda phroblemau iechyd meddwl. Wedi'r cyfan, pwy yn ei iawn bwyll fyddai'n lladd plant?"

## RHYFEL

Mae Rhyfel yn dod â'i restr marwolaethau ar bob ochr gydag ef, da ni'n deall hynny. Ond rhywsut mi oedd yna adeg pan oedd amddiffyn gwragedd a phlant ac amddiffyn sifiliaid nad oedden nhw'n rhan o'r ymladd yn cael ei barchu neu o leiaf roedd ymgais i osgoi eu taro os oedd modd. Erbyn hyn mae nhw'n ddim ond un corff arall ar y pentwr a dydy'r gwleidyddion ar y naill ochr na'r llall ddim fel petaen nhw'n malio nac yn teimlo'n euog.

## NEWID Y STORI

Da ni a'n teuluoedd yn teimlo ymhell o'r ymladd yn Gaza a Libanus, yn Syria ac Affganistan, yn Rwsia a'r Wcrain ond dydy hynny'n lleihau dim ar ein cyfrifoldeb - ein plant ni ydy'r plant sy'n cael eu lladd a'u hanafu. Os ydy'n llywodraeth ni neu ein sefydliadau ni yn cefnogi'r pwerau sy'n lladd plant mae angen i ni godi'n lleisiau. Neu os ydy'n gwleidyddion ni'n eistedd ar y ffens am eu bod nhw â'u golygon ar ganlyniadau'r etholiad nesaf mae eisiau i ddweud bod na bethau pwysicach na phwy fydd yn dal grym yn San Steffan neu Fae Caerdydd. Fedrwn ni ddim mynd yn ôl a newid stori plant Aberfan ar Hydref yr 21ain 1966 ond fe ddylen ni wneud ein gorau i newid stori plant y byd er gwell yn 2024. Dim ond wrth ynysu a chwilyddio'r rhai sy'n difa bywydau bach y byddan nhw'n dod at eu coed. Fedrwn ni ddim eistedd a gwneud dim – mae llygaid Iesu arnom.



## OEDFAON A CHYFARFODYDD TACHWEDD

Bore Sadwrn, 2 Tachwedd, 10am tan 12pm, *Bore Coffi Masnach Deg*

Bore Sul, 3 Tachwedd, *Oedfa gymun dan arweiniad y gweinidog*

Bore Sul, 10 Tachwedd, Sul y Cofio. *Oedfa bob oed dan arweiniad y gweinidog*

Pnawn Iau, 14 Tachwedd, 3pm tan 4pm, *Cyfarfod* 'PANED A SGWRS'

Nos Wener, 15 Tachwedd, 7.30pm, *Oedfa i gomisiynu Bugeiliaid y Stryd*

Bore Sul, 17 Tachwedd, *Oedfa dan arweiniad Arwel Roberts, Rhuddlan*

Bore Sul, 24 Tachwedd, *Oedfa dan arweiniad y gweinidog*

Nos Sul, 24 Tachwedd, *Noson yng nghwmni Lleuwen Steffan*
*yn cyflwyno* Emynau Coll y Werin *am 6.30pm yn Emaus*

## DYDD GWEDDI CHWIORYDD BEDYDDIEDIG Y BYD 2024

Cynhelir oedfa ar gyfer Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddiedig y Byd
yn Emaus am ddau o'r gloch y prynhawn ar Ddydd Llun, Tachwedd 4ydd.
Bydd paned ar gael wedi'r oedfa.

Thema'r gwasanaeth eleni fydd "Bywyd Bwriadol"
yn seiliedig ar Rufeiniaid 8:28:
*"Gwyddom fod Duw, ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda'r rhai sy'n ei garu, y rhai sydd wedi eu galw yn ôl ei fwriad."*
Bydd amryw o chwiorydd Emaus a chapeli eraill Arfon
yn cymryd rhan dan lywyddiaeth Elen Lansdown.

Trefnir y Dydd Gweddi gan Adran Chwiorydd Cynghrair Bedyddwyr y Byd,
sy'n cynrychioli 175 o undebau a mudiadau mewn dros 150 o wledydd.
Felly cawn gyfle i weddïo gyda miloedd ar filoedd o chwiorydd ar draws y byd.

*Croeso cynnes i bawb - gan gynnwys y brodyr!*

Llongyfarchiadau
i Alwen a Peter Nicholson ar enedigaeth eu hwyres,
Winifred Jane Nicholson, merch i Dewi Nicholson
a'i wraig, Katie.
Maent yn byw yng Ngharmel,
ger Treffynnon.

## GRIFFITH EVANS, GWYDDONYDD A CHAPELWR O FRI

Y sialens i Gavin Gatehouse, gwyddonydd Abergwyngregyn, oedd ysgrifennu llyfr am y gŵr rhyfeddol Griffith Evans (1835-1935), a fagwyd yn Nhywyn, Meirionnydd, ond a dreuliodd 45 o flynyddoedd yma ym Mangor. Lansiwyd llyfr Gavin Gatehouse yn Storiel ym mis Mai eleni a thraddododd Gavin ddarlith arbennig am Evans yn y Brifysgol ar 18 Hydref. Mae ei lyfr, fel ei ddarlith, yn llifo fel nofel ac yn agoriad llygad.

Roedd Griffith Evans yn filfeddyg yn arbenigo mewn afiechydon bacteriol, yn arbennig bacteria a oedd yn lladd ceffylau – a hynny mewn oes pan oedd ceffylau yn bwysig iawn ar y tir ac mewn rhyfeloedd. Camp Evans oedd dilyn y wyddoniaeth a darganfod ffordd i drin y cyflwr, a hynny er mawr ryfeddod i filfeddygon y cyfnod, nifer ohonynt yn gwrthwynebu ei waith. Cadwodd Evans at ei egwyddorion, doed a ddêl.

Mae cysylltiad cryf rhwng y gyfrol a Bangor ar sawl lefel, gan gynnwys aelodaeth Evans o Gapel Pendref, lle bu'n Arolygwr yr Ysgol Sul. Yn ôl pob sôn roedd Griffith Evans hefyd wrth ei fodd yn herio pregethwyr ar ddiwedd yr oedfaon!

Ar ôl i Griffith Evans ymddeol yn 1890 yn 55 oed, ac yntau wedi crwydro'r byd gyda ei waith, prynodd dŷ ym Mangor, Brynkynallt ar Lôn Pobty, er mwyn bod mewn cyswllt agos gyda Choleg y Brifysgol a oedd wedi'i sefydlu yn 1884, ychydig o flynyddoedd ynghynt.

Cyfrannodd yn helaeth at waith y Coleg drwy ei gysylltiadau gyda'r darlithwyr, yn arbennig yn yr Adran Amaethyddiaeth, ac fe'i perswadiwyd i ddarlithio i fyfyrwyr yr adran honno am gyfnod o ugain mlynedd fel *'Instructor in Veterinary Hygiene'*. Bu'n aelod o bwyllgorau'r Coleg, ac yn hael iawn ei gyfraniadau iddo.


Roedd Griffith Evans hefyd yn ddylanwadol yn ei ymwneud â chymdeithasau a mudiadau amrywiol Bangor ac yn uchel iawn ei barch ymysg trigolion y ddinas. Roedd yn cefnogi'r mudiad rhyddfrydol, a byddai Lloyd George yn lletya yn aml yn Brynkynallt ar ei ymweliadau â Bangor. Yn 1931, ac yntau yn 96 oed, aeth cynrychiolwyr Cyngor Dinas Bangor i ymweld â Griffith Evans yn ei wely yn Brynkynallt i gyflwyno iddo Ryddid Dinas Bangor, anrhydedd a oedd wrth ei fodd. Bu farw yn 1935 yn dilyn ei ben-blwydd yn gant oed. Mae'r cof amdano erbyn hyn wedi pallu ond mae cyfrol Gavin Gatehouse yn ei adfywio a'r stori lawn yn ysbrydoledig.

Mae'r gyfrol yn rhan o gyfres *Gwyddonwyr Cymru / Scientists of Wales* a chyhoeddir gan Wasg Prifysgol Cymru. Gellir prynu neu archebu copïau mewn siopau llyfrau lleol. Teitl y llyfr Saesneg hwn ydy 'Griffith Evans, 1835-1935'. Mae'n hen bryd i fywyd a gwaith Griffith Evans gael ei gydnabod. Does dim rhaid bod yn wyddonydd o fath yn y byd i fwynhau'r llyfr arbennig hwn. Anrheg Nadolig berffaith!

*Gareth Ffowc*



*Deri Tomos* (chwith), *un o gyfeillion Emaus a gadeiriodd ddarlith Gavin Gatehouse* (dde)



































Cafod Nancy gomisiwn i wneud '*Bas relief*' o John Hulley, ar gyfer plac efydd yn Lerpwl, gan ddefnyddio yr unig lun ohono sydd wedi goroesi. Yr oedd Hurley yn gyfrifol, gydag eraill, am sefydlu'r Gemau Olympaidd Modern.

**RHAI CERFLUNIAU GAN NANCY**

Fe fuasai Nancy yn dathlu ei phenblwydd ym Mis Tachwedd. 'Rwy'n meddwl ei bod hi'n briodol y mis yma i mi arddangos rhan arall o'i thalent artistig. Mae yn eglur fod ein wyrion a'n wyresau wedi rhoi ysgogiad mawr iddi wneud y cerfluniau ohonynt. Yn ychwanegol fe wnaeth amryw o gerfluniau o oedolion ac anifeiliaid.

Mae cyflenwad o focsys a thaflenni T4U ar gael yn y capel. Cawn gyfle eto'r flwyddyn yma i lenwi bocs ar gyfer plant neu'r cartref. Bydd y bocsys yn cael eu cludo i gymunedau tlawd yn Nwyrain Ewrop. Y diwrnod olaf ar gyfer eu casglu o'r capel fydd bore Sul, Tachwedd 10fed er mwyn eu trosglwyddo i Ysgol David Hughes fore Llun, Tachwedd 11fed.

*Llawer o ddiolch*

*Siân Arwel Davies*




## CAN MLYNEDD YN ÔL ...

Yn yr wythnosau diwethaf daeth y newydd trist am farwolaeth y Parch Dennis Young, gynt o Gaergybi, adnabyddus i lawer iawn ohonom fel gweinidog ffyddlon ac ymroddgar i'r Efengyl. Ac yntau wedi dathlu ei ben-blwydd yn gant oed rhai misoedd yn ôl, Dennis oedd gweinidog hynaf Undeb Bedyddwyr Cymru. Mae'n amlwg bod 1924 yn flwyddyn arbennig am hirhoedledd gan fod Bedyddiwr arall wedi dathlu ei gant oed ym mis Hydref, sef y cyn-arlywydd Jimmy Carter - ac yntau yn dal ar dir y byw! Gyda chymorth Wikipedia dyma fynd i chwilio am bobl eraill enwog a gafodd eu geni yn yr un flwyddyn. Dyma restr o rhai ohonynt *(dyddiad marwolaeth mewn cromfachau):*

O fyd ffilm a theledu: Ron Moody (2015), Marlon Brando (2004), Lauren Bacall (2014) a Cecily Tyson (2021). Hefyd Benny Hill (1992), Leslie Philips (2022) a Tony Hancock (1965).

O fyd cerddoriaeth: Henry Mancini (1994), Charles Aznavour (2018) a Maurice Jarre (2009). Heb anghofio George Guest, a gafodd ei eni ym Mangor (2002).

O fyd gwleidyddiaeth: Robert Mugabe (2019) a George H. W. Bush (2018).



Traffig can mlynedd yn ôl

O fyd llenyddiaeth: Truman Capote (1984), James Baldwin (1987) a Leon Uris (2005). Hefyd Roseamunde Pilcher (2019), Shirley Paget, Ardalyddes Môn (2017) ac o Gymru, Islwyn Ffowc Elis (2004).

A'r person enwocaf a gafodd ei geni yn 1924? Pwy arall ond fy mam, Mrs Dilys Jones, a fu farw chwarter canrif yn ôl erbyn hyn. Mi fuasai'n gant oed ar Rhagfyr 1af.

*Eleri Lloyd Jones*



Dyma lun o Leuad yr Heliwr a dynnwyd gan Catrin Evans yng nghanol mis Hydref. Wrth gwrs, mae lleuad llawn yn digwydd bob mis yn rheolaidd - ond roedd hwn yn lleuad llawn arbennig. Dyma'r *"supermoon"* mwyaf llachar eleni. Fel y gwyddoch mae'r lleuad yn troi o gwmpas y ddaear ar lwybr hirgylch (h.y. fel pêl rygbi yn hytrach nag un bêl droed). Mae *"Supermoon"* yn digwydd pan fo'r lleuad yn agosach at y ddaear nag arfer a hynny'n cyd-ddigwydd gyda lleuad llawn. Felly mae'r lleuad yn ymddangos yn fwy nag y mae yn arferol.

Mae'r enw Lleuad yr Heliwr ar leuad llawn mis Hydref yn cofnodi'r hen arfer o gynyddu'r hela yn yr hydref er mwyn sicrhau digon o gig ar gyfer y gaeaf.

Ar yr un adeg 'roedd comed arbennig i'w weld yn y ffurfafen, yn y gorllewin ychydig ar ôl i'r haul fachlud. Mae Comet A3 *(Tsuchinshan-ATLAS)* yn "ymweld" a'r ddaear bob 80,0000 mlynedd felly 'roedd hyn yn ddigwyddiad hanesyddol. Tybed 'ddaru rhywun ei gweld a/neu dynnu llun ohoni? Fe fethais i a'i gweld oherwydd nad oedd gennyf olwg o'r gorwel orllewinol o'n ty ni ond roedd digon o luniau ohoni ar y teledu ac ar y we.

Onid yw ein bydysawd yn rhyfeddol? Fel dywed Salm 19: *"Y mae'r nefoedd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo."*

Eleri Lloyd Jones

## COFION A DYMUNIADAU DA

*Pob dymuniad da i Gwilym Williams,*

*Fferm Maes Mawr*

*sydd wedi gadael Ysbyty Gwynedd*

*i dreulio cyfnod ym Mhlas Garnedd, Llanfairpwll*

*cyn mynd adre.*

*LLONGYFARCHIADAU*

~~~~~~~~

*Llongyfarchiadau*
*i Tesni Marged Owen*
*ar ei phenodiad*
*yn Brif Ddisgybl, Ysgol Tryfan.*
*Mae hefyd yn diweddar*
*wedi dathlu*
*ei phenblwydd yn 18oed.*



*Dyma Tesni gyda'i nain*
*Glenda Jones*
*yn dathlu'r penblwydd*






## BLODAU

MIS HYDREF

Diolch i Delyth Mai Williams
ac Elen Lansdown
am ofalu fod blodau
ar gyfer oedfaon Mis Hydref.

MIS TACHWEDD

3 a 10 Siân a Beth

7 a 24 Alwen Nicholson

Diolch yn fawr i bawb
sydd wedi rhoi eu henw ar gyfer
rhoi blodau yn ystod 2024.
Mae taflen ar gyfer 2025
yn y cyntedd
neu rhowch wybod i ni
pa ddyddiad fyddech yn
dymuno rhoi blodau.

Diolch Kath a Meriel

Kath Jones 01248 353313

Meriel 01248 352205 neu
*merielparry@gmail.com*
~~~~~~~~

Mae Tachwedd
yn fis dathlu
hanner dwsin
o benblwyddi
yn ein teulu ni.
Y flwyddyn yma,
mae Eurfryn y gŵr
yn 80.
Llongyfarchiadau
calonnog
oddiwrth
y teulu i gyd-

*- Siân*

[ gan ychwanegu ein dymuniadau da oddiwrth ei gyfeillion yn Emaus ]



## DIOLCH AM GEFNOGAETH

Gan fy mod byth a beunydd yn apelio am gefnogaeth aelodau Emaus i'r elusen, 'Achub y Plant', dyma ychydig wybodaeth am y gweithgareddau a gynhaliwyd ers yr haf. Ym mis Medi, cynhaliwyd ocsiwn yng Ngwesty Carreg Brân. Yn dilyn swper, cafwyd ocsiwn ddifyr gydag eitemau amrywiol iawn, er enghraifft; wythnos mewn villa yn Castril, Sbaen; te prynhawn; 2 bei cartref am 12 wythnos; bagiau o goed tân a thocynnau pantomeim. I gloi'r noson, mwynhawyd adloniant hwyliog gan Arfon Wyn a'r Moniars. Codwyd £2,000 y noson honno.

Ym mis Hydref, cafwyd cyngerdd mawreddog yn y Gadeirlan er budd 'Achub y Plant'. Trefnydd y noson oedd Annette Bryn Parri a chasglodd ynghyd amryw o gantorion ac offerynwyr. Canwyd unawdau gan y tenor adnabyddus, Gwyn Hughes Jones, sydd yn gennad dros 'Achub y Plant' a chafwyd eitemau gan y pianydd a'r cyfansoddwr o'r Eidal, Stefano Nerozzi, ac Annete, Côr Law yn Llaw, Dylan a Neil, Piantel (sef Dylan Cernyw ac Annette), Robat Wyn y bariton, Emyr Gibson a Bedwyr Parri. Hyfforddwyd côr plant o Ysgolion Deiniolen, Penisarwaun, Llanrug, Waunfawr, Dolbadarn a Llandygai gan Annette ar gyfer y noson, a'r cyfeilydd oedd Hawys Parri. Casgliad anhygoel o dalent o dan yr un to. Arweinydd y noson oedd Wil Morgan, un sydd â'i wreiddiau yn Llanfairfechan. Braf oedd cael cwmni Gareth Owen, Cyfarwyddwr Dyngarol 'Achub y Plant', a chafwyd gair byr ond pwrpasol ganddo. Ar hyn o bryd nid yw'r swm a godwyd y noson hon yn wybyddus.

Ers dechrau 2024, trosglwyddwyd bron i £9,000 i gronfa 'Achub y Plant' gan Gangen Ynys Môn a gallaf sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio ar unwaith. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cwis, sioe ffasiynau, clwb swper, ffair grefftau, a gwnaethpwyd casgliadau mewn gemau pêl droed a rygbi. Diolch i bawb am eu haelioni. Mwy na thebyg y cynhelir bore coffi cyn y Nadolig, ac felly byddaf ar eich gofyn unwaith eto.

*Elen Lansdown*

# GWLAD PWYL



Peth braf yw mynd ar wyliau ond nid yw gwyliau heb eu heriau. Dyna oedd ein profiad ym mis Medi eleni wrth ymweld â dwy ddinas yn rhan ddeheuol Gwlad Pwyl: Kraków i gychwyn a Wrocław i ddilyn, rhyw gan milltir rhyngddynt. At ei gilydd roedd y tywydd yn braf iawn, ambell gawod o law ar brydiau ond dim i amharu ar fwynhau y rhyfeddodau lleol. Fodd bynnag, roedd y cyfryngau yn bygwth gwae gan dynnu sylw at law mawr mewn rhannau eraill o Wlad Pwyl. Roedd perygl y byddai'r afonydd sy'n llifo trwy ddinas Wrocław, yn arbennig, yn debygol o foddi rhannau helaeth o'r ddinas. Hynny oedd stori'r cyfryngau, a dangoswyd lluniau yma ym Mhrydain o'r alanas debygol. Ond nid felly oedd y sefyllfa yn Wrocław ei hun. Roedd y bobl leol yn tawelu'n meddyliau ar bob cyfle. Daethom i ddeall y bu llifogydd sylweddol yn Wrocław a dinasoedd eraill yn 1997 a bod awdurdodau Gwlad Pwyl wedi mynd ati ers hynny i gynllunio'n fanwl ar gyfer y dyfodol. Dargyfeiriwyd llawer o'r dŵr i ardaloedd diogel, gwellwyd peirianneg y ddinas ei hun ac, y tro hwn, daeth rhai miloedd o'r dinasyddion, yn arbennig pobl ifanc, allan o'u tai i lenwi miloedd o sachau tywod rhag ofn y byddai eu hangen. O ganlyniad, doedd dim problem o gwbl mewn gwirionedd, serch y bygythiadau. Roedd y Pwyliaid yn rhyfeddol o groesawgar.

*Gareth a Menna*



LLIFOGYDD O'R TREN



Y DWR YN BYGWTH



YR IFANC AR WAITH



Y GENI MEWN CLODDFA HALEN



CORACHOD YN EIN DIOGELU

# CORNEL POSAU GARETH

ATEB I BOS HYDREF 2024

## POS Y MORFARCH

*Mae 2 yn cael ei ddefnyddio 25 o weithiau.*

## POS TACHWEDD 2024

## POS 15

*Rhowch y rhifau o 1 i 9*
*yn y sgwariau*
*fel bo cyfanswm*
*pob rhes,*
*pob colofn*
*a phob croeslin yn 15.*

| | | |
|---|---|---|
| 2 | | |
| | | |
| | 3 | |


Bydd yr ateb yn rhifyn Rhagfyr.

CYLCH DARLLEN EMAUS

*Bydd y cylch darllen nesaf*
*yn cael ei gynnal yn Emaus*
*ddydd Gwener, Tachwedd y Cyntaf*
*am ddau o'r gloch.*

Y llyfr i'w drafod yw

Y CYSGOD YN Y COF




*Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni.*

DIOLCH

Diolch i Eleri am gael nifer ohonoch i gyfranu deunydd ar gyfer y rhifyn yma.
Ar gyfer Negesydd Rhagfyr dylid gyrru cyfraniadau i Nia Llwyd erbyn
23 Tachwedd
ebost : *niallwyd@btinternet.com*
ffôn : *370650*
*gyda chopi (cc) i'r Negesydd*

# CYFEIRIADUR EMAUS

**ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:**
Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

**BMS:**
Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

**CYTÛN A CHYMORTH CRISTNOGOL:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**GWEINIDOG:**
y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

**MASNACH DEG:**
Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

**NEGESYDD – CYSODI:**
Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

**NEGESYDD – ROTA GOLYGU:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

**PANED A SGWRS**
Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
gwjen@tiscali.co.uk
362125

**ROTA BLODAU**
Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

**ROTA'R ORGAN:**
Enid Griffiths
712726

**SWYDDOG DIOGELU:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**TI A FI:**
Elen Lansdown
elen.lansdown@icloud.com
364843

**TRYSORYDD:**
David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

**YSGRIFENNYDD ARIANNOL:**
Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

**YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:**
Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

**YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243